O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2697 (Cy. 289)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cerbytffordd Tua'r Dwyrain rhwng Cyffordd 23 (Llanddulas) a Chyffordd 24 (Abergele), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed *9 Tachwedd 2011*

Yn dod i rym *15 Tachwedd 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer - Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd neu gyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Tachwedd 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cerbytffordd Tua'r Dwyrain rhwng Cyffordd 23 (Llanddulas) a Chyffordd 24 (Abergele), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 18:30 o'r gloch ar 15 Tachwedd 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu symud oddi yno yn derfynol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A55 rhwng Llanddulas ac Abergele ym Mwrdeistref Sirol Conwy a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feiciau pedal, na pheri i unrhyw feiciau o'r fath gael eu reidio ar y darnau o gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar hyd y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

7. Nid yw darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i’r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a’r cyfyngiad y cyfeirir atynt ynddynt ar waith.

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 9 Tachwedd 2011

G R Morgan
GARETH MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Seilwaith Arbenigol
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1
Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro

Y darn o'r gerbytffordd tua'r dwyrain ar y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 23a hyd at bwynt 10 metr i'r gorllewin o drwyn y ffordd ymuno tua'r dwyrain ar Gyffordd 24 (Abergele), gan gynnwys y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain ar Gyffordd 24.

ATODLEN 2
Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn o'r gerbytffordd tua'r dwyrain ar y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 2333 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 23 (Llanddulas) i Gyffordd 23a, sef pellter o 1500 o fetrau.